UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cyngor Proffesiynol

# Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-Dechnoleg

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-Dechnoleg

Mae technoleg gwybodaeth yn arf pwysig mewn addysg, ac mae'n cynnig llu o gyfleoedd cyffrous. Serch hynny, rhaid sicrhau nad yw'r arf hwn yn cael ei gamddefnyddio.

Gall defnydd amhriodol o'r dechnoleg gyfrannu at broblemau bwlio a gall fygwth diogelwch personol. Mae cwestiynau cyfreithiol yn codi ynglŷn â diogelu data personol, hawlfraint a llên-ladrad, trosglwyddo defnydd sarhaus (*offensive material*), difenwi cymeriad (*defamation of character*), aflonyddu rhywiol neu hiliol ac yn y blaen. Mae cwestiynau eraill eto'n codi mewn perthynas â phreifatrwydd personol.

Mae defnydd amhriodol o e-dechnoleg yn effeithio ar athrawon/ darlithwyr yn ogystal ag ar ddysgwyr. Mae'n hanfodol felly, fod pob sefydliad yn ymdrechu'n barhaus i gynyddu e-ddiogelwch. Yn y daflen hon, cynigiwn arweiniad ar sut i wneud hynny.

## 1. Beth yw Strategaeth E-ddiogelwch?

### Cyfrifoldeb ar bawb

Gan fod cynifer o ffyrdd i fynd ar-lein a chynifer o gyfleoedd i wneud hynny, nid oes modd *rheoli* defnydd pob unigolyn yn yr ysgol/coleg o e-dechnoleg - ac ni fyddai'n ddymunol gwneud hynny. Gwell, yn hytrach, yw canolbwyntio ar sicrhau bod pawb yn gwybod sut i ymddwyn yn gyfrifol, yn deall y peryglon, ac yn deall beth yw polisïau'r ysgol/coleg. Hynny yw, nid ateb technolegol yn unig sydd ei angen, ond ateb addysgiadol; a rhaid i bob aelod o'r sefydliad fod yn rhan o'r broses.

### Tu mewn i furiau'r ysgol/coleg, a thu hwnt

Gan fod technoleg cyfathrebu yn rhan ganolog o'n bywydau bob dydd, mae angen i strategaeth e-ddiogelwch fynd i'r afael ag amryw o dechnolegau ac amgylchiadau.

Mae'n bwysig meddwl am ymddygiad o fewn muriau'r ysgol/coleg a'r defnydd a wneir o gyfrifiaduron o fewn y sefydliad – ond rhaid meddwl y tu hwnt i hynny yn ogystal. Mae e-bost, cyfnewid negeseuon a gwybodaeth drwy ffonau symudol, rhaglenni negeseua a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol megis Twitter, Facebook, Snapchat, Instagram, blogio, a defnydd cyffredinol o'r rhyngrwyd (a hynny drwy amryw o declynnau) oll yn bethau i'w hystyried. Gyda dyfodiad Deallusrwydd Artiffisial (DA) *(Artificial Intelligence (AI)* a'i ddatblygiad cyflym iawn, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r manteision a'r bygythiadau sydd ynghlwm wrth y dechnoleg newydd hon.

### Cyd-gysylltu â pholisïau eraill yr ysgol/coleg

Nid yw'r byd ar-lein yn ddatgysylltiedig o'r byd go iawn. Ond y gwahaniaeth yw ei fod yn caniatáu cyfathrebu cyflymach, mwy hyblyg, ac ar adegau, cyfathrebu mwy cyfrinachol neu gyfathrebu llawer mwy cyhoeddus.

Mae ysgolion/colegau yn gosod safonau ymddygiad fel rhan o'u diwylliant sefydliadol, ac mae'n bwysig bod staff a myfyrwyr yn deall bod yr un disgwyliadau'n berthnasol i'w gweithgareddau a'u cyfathrebu electronig ag sydd i'w hymddygiad wyneb yn wyneb.

Rhaid cofio, felly, fod angen i unrhyw strategaeth neu bolisi e-ddiogelwch fod yn gysylltiedig â pholisïau eraill yr ysgol e.e. polisi bwlio, polisi llên-ladrad, polisi disgyblu, polisi diogelu, polisi asesu.

### Monitro ac adolygu cyson

Mae'n bwysig monitro'r strategaeth yn gyson, a'i hadolygu'n rheolaidd. Mae'r dechnoleg a'r defnydd ohoni'n newid yn gyflym, felly rhaid sicrhau bod polisïau'r sefydliad yn gyfredol.

### 2. Beth y dylid ei gynnwys mewn Strategaeth E-ddiogelwch?

Mae cael trafodaeth agored yn fan cychwyn da, ac yn ffordd o dderbyn a datblygu syniadau, i sicrhau bod pawb yn rhan o'r broses, ac i sefydlu pwrpas y strategaeth, sef diogelu pawb.

Awgrymir rhai elfennau pwysig o unrhyw Strategaeth E-Ddiogelwch isod.

### Polisi Defnydd Derbyniol

Mae Polisi Defnydd Derbyniol yn hanfodol er mwyn i bob aelod o'r sefydliad, boed yn staff neu'n ddisgyblion/myfyrwyr, wybod beth sy'n cael ei ganiatáu, a beth i'w wneud os ydynt yn digwydd gweld gwefan neu gynnwys amhriodol yn ddamweiniol.

Mae'n bwysig bod y polisi yn delio gyda chyfrifiaduron, ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen (*tablets*). Rhaid bod yn glir iawn ynglŷn â phryd, ble a sut y caniateir eu defnyddio – nid yn unig o ran gwneud galwadau ac anfon negeseuon, ond hefyd o ran tynnu lluniau a fideos a'u rhannu ag eraill gan gynnwys drwy eu cyhoeddi ar y we. Dylid hefyd sicrhau dealltwriaeth o'r disgwyliadau o ran cadw eiddo'r ysgol (e.e. ipads) yn ddiogel.

Gellir cael hyd i bolisïau enghreifftiol ar y we (chwiliwch drwy ddefnyddio'r term '*Acceptable Use Policy*') neu gan Awdurdodau Lleol. Mater cymharol rwydd yw eu haddasu i anghenion eich sefydliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau'n rhoi arweiniad ar sut i gadw dysgwyr yn ddiogel:

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol

https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Dylid trafod, ymgynghori â'r staff a'u cynrychiolwyr ar gynnwys y polisi a dosbarthu'r polisi gorffenedig yn eang er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff a phob disgybl/myfyriwr a'u rhieni yn ymwybodol o'r polisi ac yn hollol ymwybodol o unrhyw gosb pe ceid gweithredu sy'n groes i'r canllawiau hyn.

Dylai copi o'r polisi fod ar gael ym mhob stafell TGCh a dylai'r prif bwyntiau fod ar gael i'w harddangos ym mhob ystafell ddosbarth neu ystafell waith.

Dylid cynnwys manylion am wefan yr ysgol yn y polisi (gweler isod) a'r defnydd o ffonau symudol (disgyblion a staff). Mae'n bwysig bod gan bob ysgol bolisi clir ynghylch ffonau symudol a bod rhieni, disgyblion a staff yn hollol ymwybodol beth sy'n cael ei ganiatàu a beth yw'r canlyniadau os na ddilynir trefn a pholisi'r ysgol.

## Arfau technolegol

Mae nifer o wahanol fathau o feddalwedd a fydd yn ddefnyddiol i osgoi gwahanol broblemau:

Meddalwedd gwrth-feirws a waliau tân (*firewalls*): gall y rhain helpu i warchod rhag firysau ac ysbïwedd sy'n achosi niwed difrifol i gyfrifiaduron, sy'n peryglu preifatrwydd ac sy'n distrywio data

Cyfrineiriau a systemau mewngofnodi: gall defnydd doeth a chyson o gyfrineiriau ddiogelu preifatrwydd

Systemau monitro i gael gwybod pwy sy'n lawrlwytho beth, pryd ac ar ba gyfrifiadur; gall hyn helpu i rybuddio a datrys problemau'n gynnar

Meddalwedd ffiltro a rheoli cynnwys: gall hyn fod yn rhywfaint o help i reoli'r cynnwys sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron eich sefydliad, ond rhaid bod yn ymwybodol bod nifer o ffyrdd i osgoi'r ffiltrau hyn ac i

gyrraedd at gynnwys er gwaethaf y ffiltrau (mae disgyblion yn aml yn arbenigo yn y tactegau hyn)

### Addysg e-ddiogelwch ac e-lythrennedd

Mae’n bwysig bod addysg e-ddiogelwch ac e-lythrennedd yn rhan barhaus o ddatblygiad staff a phobl ifanc. Gall canllawiau ar gyfer rhieni, llywodraethwyr, gofalwyr ac eraill fod yn fuddiol hefyd.

Mae rhaglenni addysgiadol yn bwysig er mwyn i bawb ddeall manteision a pheryglon y dechnoleg, ac fel bod modd iddynt ei defnyddio’n ddiogel a chyfrifol – o fewn yr ysgol/coleg yn ogystal â thu hwnt.

Mae’n bwysig pwysleisio’r manteision a’r wedd gadarnhaol, ond ar yr un pryd rhaid arfogi pawb o ran gwybodaeth a sgiliau i ddelio ag agweddau llai dymunol ymddygiad a chynnwys electronig.

Mae’n bwysig i bawb ddysgu sut i ymdrin â'r canlynol:

Cynnwys

Sut i ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol a dibynadwy ar y we

Sut i adnabod a delio â chynnwys anghyfreithlon ac/neu amhriodol: beth sy’n cael ei ganiatáu a beth sy’n anghyfreithlon/amhriodol

Sut/ble i roi gwybod am gynnwys amhriodol o fewn yr ysgol a thu allan e.e. yr **Internet Watch Foundation** http://www.iwf.org.uk

Ymddygiad

Sut i ymddwyn ar wefannau ac apiau rhwydweithio cymdeithasol

Ymwybyddiaeth o beryglon datgelu manylion personol, neu fanylion personol ffrindiau

Yr angen i fod yn wyliadwrus ac i beidio ag ymddiried yn yr hyn mae pobl yn ei ddweud amdanynt eu hunain ar-lein

Peidio byth â mynd ar eich pen eich hun i gwrdd â rhywun rydych chi wedi dod i’w adnabod ar-lein

Bwlio neu aflonyddu

Sut i ymateb i fwlio drwy’r we neu ffôn symudol, a sut i ymateb i unrhyw negeseuon neu ymddygiad sy’n aflonyddu

Mae angen systemau cadarn a dibynadwy i ddelio ag ymddygiad o’r fath, ac mae’n bwysig bod disgyblion/myfyrwyr yn ymddiried yn y systemau hynny a’r bobl sydd ynghlwm wrthynt

Llên-ladrad a hawlfraint

Beth yw llên-ladrad a hawlfraint

Sut i adnabod deunydd y gellir ei gopïo a'i rannu a deunydd lle na chaniateir gwneud hynny

Sut i gydnabod ffynonellau'n briodol

Defnydd priodol o Ddeallusrwydd Artiffisial mewn Asesiadau

https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2024/07/AI-Use-in-Assessments_Feb24_v6.pdf

Gweler hefyd erthygl ar wefan CBAC

https://www.cbac.co.uk/erthyglau-casgliad/polisi-camymddwyn-a-deallusrwydd-artiffisial-canllawiau-tachwedd-2023/

## 3. Cyngor arall i athrawon a darlithwyr

### Preifatrwydd

Mae Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) yn awgrymu y dylai cyflogwyr ganiatáu defnydd personol achlysurol a synhwyrol o'r rhyngrwyd ac e-bost cyn belled nad yw hyn yn amharu ar waith gweithiwr. Ond rhaid cofio bod gan y cyflogwr yr hawl i fonitro e-bost a'r defnydd o'r rhyngrwyd, yn enwedig os yw'r cyflogwr yn amau bod yna gamddefnydd. Dylech wirio beth yw polisi eich cyflogwr am hyn.

Yng ngolwg y gyfraith, nid yw defnyddio e-bost neu anfon negeseuon yn wahanol i unrhyw ddull cyfathrebu arall y gellir ei gofnodi neu ei recordio – gellir eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys. Rhaid gwylio, felly, rhag gwneud unrhyw ddatganiad enllibus. Cofier nad yw pwyso'r botwm *dileu* yn ddigon i sicrhau bod unrhyw ohebiaeth electronig wedi'i dileu'n llwyr.

Dylid defnyddio unrhyw offer sy'n perthyn i'r cyflogwr ar gyfer materion sy'n berthnasol i'r gwaith yn unig. Mae hyn yn wir am unrhyw ddefnydd a wneir ym mhreifatrwydd y cartref, e.e. pe bai unigolyn yn benthyg cyfrifiadur. Cofier bod y cyfrifiadur yn cofnodi cyfeiriad, amser a dyddiad yr holl wefannau yr ymwneir â nhw, ac mae modd ailgodi cofnod o wefannau yr ymwelwyd â hwy ar ôl eu dileu.

Er eich bod ym mhreifatrwydd eich cartref, yn defnyddio'r cyfrifiadur yn ystod eich amser eich hun ac ar eich cysylltiad rhyngrwyd eich hun, os ydych wedi ymweld â safle pornograffig, fe allech wynebu cael eich disgyblu, neu gallech hyd yn oed wynebu achos troseddol.

### Defnydd o'r we, e-bost ac ati:

### Gwefannau/cynnwys anaddas

Ni chaniateir ymweld ag unrhyw safle pornograffig nac unrhyw safle y gallai ei gynnwys fod yn annymunol (e.e. cynnwys hiliol)

Mae ymweld â safle pornograffig ar offer y cyflogwr yn cyfateb i gyflawni gweithred o gamymddwyn difrifol (*gross misconduct*) a allai arwain at ddiswyddo a pheryglu gyrfa'r unigolyn

### Gohebiaeth

Ni ddylid defnyddio e-bost personol i gyfathrebu â disgyblion/myfyrwyr. Wrth ddefnyddio e-bost i dderbyn gwaith gan ddisgyblion/myfyrwyr, dylid defnyddio e-bost swyddogol yn unig a chadw unrhyw sylwadau i faterion proffesiynol

Ni ddylid defnyddio cyfeiriad e-bost unigol a roddir i staff yr ysgol at ddibenion personol

Oherwydd rôl negeseuon mewn achosion o aflonyddu neu fwlio yn y gweithle a bwlio gan ddisgyblion/myfyrwyr, dylid dod ag unrhyw achos o'r fath at sylw'r Pennaeth ar unwaith, a chadw unrhyw ohebiaeth electronig fel tystiolaeth

### Rhwydweithio cymdeithasol a blogio

Nid yw'n dderbyniol i athrawon gyfeirio at eu lle gwaith neu eu cydweithwyr wrth rwydweithio'n gymdeithasol nac ar flog, nac ychwaith i osod lluniau ohonynt – oni bai bod hyn at ddefnydd gwaith yn benodol

Nid yw'n dderbyniol i athrawon osod lluniau o'u lle gwaith na'u cydweithwyr wrth rwydweithio'n gymdeithasol mewn rhinwedd bersonol

Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd i sicrhau eich bod yn rheoli pwy all weld y wybodaeth amdanoch: https://www.facebook.com/about/basics

https://help.instagram.com/285881641526716?ref=igtos

https://support.tiktok.com/en/account-and-privacy/account-privacy-settings

Cymerwch ofal mawr ynglŷn â'r math o wybodaeth rydych chi'n ei chyhoeddi amdanoch eich hun. Cofiwch fod llawer o ddarpar-

gyflogwyr yn chwilio am wybodaeth am ymgeiswyr ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol

Peidiwch â dod yn ‘ffrindiau’ ar-lein gyda disgyblion/myfyrwyr

Wrth flogio, neu wrth osod postiadau/sylwadau o unrhyw fath ar-lein, cofiwch nad yw’n gymeradwy i gyhoeddi unrhyw beth na fyddech yn fodlon rhoi eich enw iddo; os nad ydych yn fodlon i’r sylwadau gael eu cysylltu’n gyhoeddus â chi, gwell peidio â’u gwneud o gwbl

Nid yw’n dderbyniol i ddisgyblion/myfyrwyr wneud sylwadau am y sefydliad, y staff, neu gyd-ddisgyblion/myfyrwyr ar wefan rhwydweithio cymdeithasol, nac ychwaith osod lluniau ohonynt ar safleoedd o’r fath

Nid yw’n dderbyniol i rieni wneud sylwadau am y sefydliad, y staff, neu gyd-ddisgyblion/myfyrwyr ar wefan rhwydweithio cymdeithasol, nac ychwaith osod lluniau ohonynt ar safleoedd o’r fath; os oes gan riant bryder neu gŵyn dylid defnyddio prosesau'r ysgol i fynd i'r afael â hyn

## Diogelu data a hawlfraint

Rhaid cael caniatâd yr unigolyn perthnasol neu, yn achos disgybl, caniatâd rhiant neu warcheidwad, cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd person

Mae rheolau hawlfraint yn weithredol ar y we, rhaid cymryd gofal wrth atgynhyrchu gwaith o wefannau eraill

## Gwefan yr ysgol/coleg

Mae gwefan ysgol/coleg wedi dod yn un o’r dulliau y mae ysgolion/colegau yn eu defnyddio i hysbysu’r gymuned o’u gwaith, o’u llwyddiannau ac o ddigwyddiadau penodol.

Isod mae’r cyngor a awgrymir gan UCAC i ddiogelu’ch ysgol/coleg rhag cyhuddiadau cyfreithiol ac i ddiogelu staff a disgyblion/myfyrwyr. Gellir cynnwys y sylwadau mewn polisi e-dechnoleg i'r sefydliad:

Rhaid sicrhau bod unrhyw ddefnydd o luniau neu wybodaeth bersonol yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys GDPR y Deyrnas Unedig *(UK GDPR)*: https://ico.org.uk/for-organisations/

Rhaid gwirio a chydymffurfio â rheolau hawlfraint, ac eiddo deallusol (*intellectual property*) lle mae ysgolion / colegau yn defnyddio delweddau, cerddoriaeth, testunau a.y.b. gan eraill. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gwell peidio â defnyddio’r deunydd. Gall camweithredu arwain at ddirwy sylweddol.

Dylid osgoi cysylltiadau â blogiau neu wefannau personol oherwydd gellir erlyn yr ysgol petai’r rhain yn cynnwys deunydd enllibus.

Mae angen cael polisi clir ar greu, diweddaru a monitro cynnwys y wefan. Dylai’r polisi gynnwys beth yw’r gofynion cymeradwyo (*approval requirements*).

Mae angen i rywun mewn sefyllfa o awdurdod fod yn gyfrifol am gadw golwg ar gynnwys y wefan a bydd angen gwirio’r cynnwys yn achlysurol er mwyn sicrhau nad oes cynnwys anaddas wedi ymddangos drwy gamgymeriad.

Os oes disgyblion/myfyrwyr yn gyfrifol am ysgrifennu neu baratoi deunydd, bydd angen canllawiau clir arnynt.

Gellir cymryd camau synhwyrol, syml a phositif er mwyn amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc, heb fod yn eithafol:

Ni ddylai fod modd i ddisgybl unigol gael ei adnabod neu i rywun allu cysylltu â disgybl unigol oherwydd y wefan

Ni ddylid rhoi enw disgybl ger ei lun, na defnyddio enwau llawn disgyblion

Gwell defnyddio lluniau grŵp yn hytrach na lluniau o ddisgyblion unigol

Peidiwch ag enwi disgybl ddaeth yn fuddugol mewn cystadleuaeth neu a sgoriodd i ennill gêm a chynnwys llun y fuddugoliaeth, neu lun o sioe ysgol gan enwi’r prif gymeriadau ac enwau llawn y disgyblion sydd yn chwarae’r rhan

Dylid osgoi gwe-gamerâu a ffrydiau byw (*live feeds*), gan nad oes modd cadw rheolaeth drostynt.

## Ffonau symudol

Mae angen i athrawon fod yn wyliadwrus o’u defnydd o ffonau symudol. Isod mae’r cyngor a awgrymir gan UCAC; gellir cynnwys y sylwadau mewn polisi ysgol/coleg hefyd ar gyfer defnydd staff o ffonau symudol.

*Peidiwch â gwneud y canlynol:*

cadw neu adael eich ffôn mewn unrhyw fan lle gallai dysgwyr gael gafael arno

defnyddio’ch ffôn symudol adeg gwersi heblaw mewn argyfwng

rhoi eich rhif ffôn symudol personol i ddysgwyr

rhoi benthyg eich ffôn symudol i ddysgwyr am unrhyw reswm

ffonio neu anfon neges destun i ddysgwr o ffôn symudol

Wrth fynd ar daith addysgiadol, defnyddiwch ffôn symudol yr ysgol/coleg fel rhif cyswllt.

Os ydych yn adnabod dysgwyr y tu allan i'r ysgol, e.e. yn perthyn iddynt, yn aelod o'r un Clwb Ffermwyr Ifainc, Clwb Drama neu Glwb Chwaraeon yna rhaid defnyddio'ch doethineb. Mae UCAC yn eich cynghori i barhau i fod yn wyliadwrus o ran eich cyswllt personol a'ch defnydd o ffonau symudol.

Mae gan staff yr hawl i gymryd ffôn symudol oddi ar ddysgwr fel cosb (Mesur Addysg ac Arolygiaethau 2006). Serch hynny, nid oes gan staff yr hawl i edrych ar gynnwys y ffôn heb ganiatâd y dysgwr. Os na ddaw caniatâd gan y dysgwr, gellir cyfeirio'r mater at yr heddlu.

## 4. Gwefannau a chysylltiadau defnyddiol

**Canllawiau gan Lywodraeth Cymru**

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002:

https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Mae nifer o ddogfennau defnyddiol ar gael wrth ddilyn y ddolen isod:

https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/

**Ffynonellau defnyddiol eraill**

- **Child Exploitation and Online Protection (CEOP):**

  www.ceop.police.uk

- **Childnet: Supporting Young People online**

  https://www.childnet.com/

- **Internet Watch Foundation –** https://www.iwf.org.uk/

- **Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol: 0344 381 4772 (helpline@saferinternet.org.uk)**
- **Education Support:** https://www.educationsupport.org.uk/
- **ThinkUKnow:** www.thinkuknow.co.uk
- **Wise Kids:** https://wisekids.org.uk/wk/

**Cyfryngau Cymdeithasol:**

**Facebook:** www.facebook.com/safety

**Snapchat**: www.snapchat.com/safety

**Instagram**: http://help.instagram.com

**TikTok**: https://www.tiktok.com/safety/en-gb

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain ac Is-Ysgrifennydd Cyffredinol, mererid@ucac.cymru

Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru

Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru

Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru

Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru

Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Gorffennaf 2024**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru